**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ann Jones AS
Cadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

CraffuPW@senedd.cymru

11 Mawrth 2021

Annwyl Gadeirydd

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 22 Chwefror, yn dilyn fy ymddangosiad gerbron y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog ar 11 Chwefror, ynghylch cymharu cynlluniau cymorth busnes Covid-19 ledled y DU.

Mae cymhariaeth uniongyrchol ar draws y bedair gwlad yn heriol oherwydd yr amrywiadau yn y telerau a’r amodau a'r cyfnodau y mae gwahanol gynlluniau grant yn eu cwmpasu. Fodd bynnag ar gyfer y cyfnod 20 Rhagfyr 2020 hyd at 1 Mawrth 2021, mae cymhariaeth wedi ei rhoi isod.

I grynhoi, byddem yn gofyn ichi nodi’r elfennau canlynol:

• Yn aml, mae cymhwysedd a lefel y cynlluniau yn rhannau eraill y DU yn ddewisol ac ar lefelau gwahanol am gyfnodau gwahanol. Yn ystod y cyfnod cyn ac ar ôl cyfarfod y pwyllgor, roedd lefel y gefnogaeth dreigl oedd ar gael yn yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi gostwng.

• Nid ydym yn rheoli cynlluniau mewn ardaloedd eraill, mae gan Loegr er enghraifft, ddau gynllun cymorth ar waith bellach, grant bloc a chynllun treigl 42 diwrnod.

Tabl cymharydd grant gwledydd cartref y DU – 20 Rhagfyr 2020 i 1 Mawrth 2021

• Mae cymariaethau'n seiliedig ar ddata sy’n hysbys ar adeg drafftio yn unig ac yn debygol iawn o newid.

• Mae llawer o'r cynlluniau'n ddewisol felly maent yn rhagdybio cymhwysedd a mynediad ac nid ydym yn gweld cyfraddau cymeradwyo na chymhwyso.

• Mae ystadegau, cymhwysedd, dyddiadau a chyfraddau yn newid yn rheolaidd. Er enghraifft, mae Gogledd Iwerddon wedi rhyddhau 10 cynllun newydd eleni ac mae ganddynt gyfanswm o 30 o gynlluniau sydd bellach ar gau i ymgeiswyr newydd ond gyda data yn parhau i fod ar gael ar-lein.



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

| Cyfnod: 20 Rhagfyr i 1 Mawrth | Gwerth ardrethol (GA) eiddo busnes £15mil a llai | GA £15mil-£50mil | GA £50mil-£500mil (BBaChau yn unig) |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Lloegr (2 gynllun) | £6,000 | £9,000 | £13,500 |
| Gogledd Iwerddon - manwerthu (hyd at 5 Mawrth) | £8,000 | £12,000 | £16,000 |
| Gogledd Iwerddon - lletygarwch | £8,000 | £12000 | £30,000 |
| Yr Alban - manwerthu | £10,000 | £10,000 | £15,000 |
| Yr Alban - lletygarwch | £10,000 | £10,000 | £32,000 |
| **Cymru - pob busnes** | **£6,000 i £10,000** | **£10,000** | **£10,000** |
| Cronfa Cydnerthedd Economaidd - Cymru (60% neu fwy o effaith trosiant negyddol ar gyfer lletygarwch, hamdden a thwristiaeth a'r gadwyn gyflenwi yn unig (£10 mil fesul busnes). Grant yn gysylltiedig â chostau cyflogaeth a gweithredu | £6,000 (pedwar gweithiwr) | £15,000 (deg gweithiwr) | Byddai £100,000 yn gofyn am gostau dros y cyfnod o ddau fis – ymyriad tebygol o £35,000. |
| **Uchafswm Cymru*** | **£16,000** | **£25,000** | **£110,000/ £45,000** |

***** *Nid yw'r uchafswm yn cynnwys y gronfa sector ERF BBaChau newydd gwerth £30 miliwn yng Nghymru ar gyfer lletygarwch, hamdden a thwristiaeth a busnesau y gadwyn gyflenwi gysylltiedig a fyddai'n gweld cwmni 10 o weithwyr yn derbyn hyd at £15,000 ychwanegol ym mis Mawrth.*
**Nid yw'n cynnwys £150 miliwn wedi'i neilltuo ar gyfer rownd pellach o grantiau ar sail cyfraddau annomestig tan yr adolygiad o reoliadau coronafeirws ar 12 Mawrth.*

Mae'r tabl yn dangos, o'i gyfuno, fod grantiau y cyfraddau annomestig a grantiau ERF yng Nghymru yn golygu bod gwerth y pecyn cymorth ar gyfer y grŵp o fusnesau yr effeithir arnynt fwyaf (lletygarwch, hamdden a thwristiaeth) yn fwy na'r hyn sydd ar gael mewn rhannau eraill y DU. Mae’r cymorth sydd ar gael i fusnesau llai yn y sector manwerthu dianghenraid hefyd yn uwch yng Nghymru.

Mae angen cymorth parhaus ar fusnesau lletygarwch, hamdden a thwristiaeth i ategu cynlluniau eraill Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Bydd £30 miliwn ychwanegol o’r Gronfa Cadernid Economaidd yn darparu cymorth ariannol brys, wedi'i dargedu at fusnesau lletygarwch, hamdden a thwristiaeth bach, canolig a mwy a busnesau cysylltiedig yn y gadwyn gyflenwi ym mis Chwefror a Mawrth 2021. Agorodd y gwiriwr cymhwysedd ar 3 Mawrth ac agorodd y gronfa ar gyfer ceisiadau ar 9 Mawrth.

Bydd grant yn cael ei ddarparu i fusnesau cymwys yn seiliedig ar £1,500 fesul swydd a ddiogelir neu gostau gweithredu sefydlog ar gyfer Chwefror a Mawrth (pa un bynnag yw'r

isaf) gyda therfyn uchaf y grant yn cael ei bennu o dan Fframwaith Dros Dro Covid-19 (cymorth cronnol £690mil).

Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd hanfodol yr adolygiad o’r rheoliadau coronafeirws ar Fawrth 12 i fusnesau.  Mae £150 miliwn ychwanegol wedi'i neilltuo i ail-redeg y grantiau ar sail cyfraddau annomestig os caiff rhybudd lefel tri neu bedwar eu hymestyn.  Bydd cwmnïau cymwys yn y sectorau manwerthu dianghenraid, lletygarwch, hamdden a thwristiaeth yn derbyn hyd at £5,000 o gymorth ychwanegol.  Golyga hyn y gallai busnesau lletygarwch sy'n cyflogi deg aelod o staff dderbyn cymorth o hyd at £45,000 ar gyfer y cyfnod rhwng mis Rhagfyr a mis Mawrth.

Dymuniadau gorau

**MARK DRAKEFORD**